

24 Tachwedd 2016

Ymddiried
mewn dŵr

Rheolau codi tâl cyfanwerthu a gyhoeddir gan yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr o dan adrannau 66E a 1171 Deddf y Diwydiant Dŵr 1991.

www.ofwat.gov.uk

ofwat

Rhagymadrodd

1. Cyhoeddir y rheolau hyn gan yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr o dan adrannau 66E a 117I Deddf y Diwydiant Dŵr 1991.
2. Daw'r rheolau i rym ar 24 Tachwedd ac maent yn berthnasol i daliadau sy'n daladwy parthed unrhyw gyfnod yn dechrau ar neu wedi 1 Ebrill 2017.
3. Mae'r rheolau'n berthnasol i'r taliadau y gellir eu gosod gan:
 - (a) ymgwymerwr dŵr o dan gytundeb adran 66D lle mae trwyddedai cyflenwi dŵr gydag awdurdodiad manwerthu neu awdurdodiad manwerthu cyfyngedig yn barti i'r cytundeb hwnnw; ac
 - (b) ymgwymerwr carthffosiaeth o dan gytundeb adran 117E lle mae trwyddedai carthffosiaeth gydag awdurdodiad manwerthu yn barti i'r cytundeb hwnnw.
4. Mae'r rheolau yn atodol i ddarpariaethau statudol sy'n gymwys i ymgwymerwyr perthnasol o dan unrhyw ddeddfiad, neu offerynnau a wnaed yn ôl y gofynion hynny (yn cynnwys amodau eu penodiadau), ac os digwydd unrhyw wrthdaro rhwng y rheolau ac unrhyw ddarpariaeth statudol, y ddarpariaeth statudol fydd yn trechu.

Dehongliad

5. Oni bai bod y cyd-destun fel arall yn mynnu, yn y rheolau hyn:
 - Mae “**Eiddo Cymwys**” yn golygu eiddo a allai fod:
 - (a) wedi'i gyflenwi â dŵr gan drwyddedai cyflenwi dŵr sydd ag awdurdodiad manwerthu neu fanwerthu cyfyngedig; neu
 - (b) wedi'i ddarparu â gwasanaethau carthffosiaeth gan drwyddedai carthffosiaeth sydd ag awdurdodiad manwerthu.
 - mae “**Fformiwla Mogden**” yn golygu'r fformiwla ganlynol:

Tâl fesul uned elifiant = $R + [(V + Bv) \text{ neu } M] + B(O_t/O_s) + S(St/S_s)^7$

Ile bod:

R = tâl derbyn a chludo [p/m³]

V = tâl triniaeth sylfaenol (cyfeintiwl) [p/m³]

Bv = tâl cyfaint ychwanegol os oes triniaeth fiolegol [p/m³]

M = tâl triniaeth a gwaredu lle bo elifiant yn mynd i arllwysfa môr [p/m³]

B = tâl ocsideiddio biolegol carthion sydd wedi setlo [p/kg]

O_t = Y galw am ocsigen cemegol (COD) elifiant ar ôl un awr o setliad llonydd ar ph 7

O_s = Galw ocsigen cemegol (COD) carthion crai un awr o setliad llonydd

S = tâl trin a gwaredu carthion sylfaenol [p/kg]

St = cyfanswm solidau elifiant mewn daliant ar ph 7 [mg/litr]

S_s = cyfanswm solidau carthion crai mewn daliant [mg/litr];

- mae “**Tâl Gwerth Ardrethol**” yn golygu tâl sydd wedi ei bennu yn gyfan gwbl neu'n rhannol drwy gyfeiriad at Restr Brisio ar gyfer Ardrethu neu a benderfynwyd fel arall, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, drwy gyfeirio at unrhyw werth neu swm arall a nodwyd ar unrhyw adeg mewn rhestr o'r fath neu sy'n honni ei fod wedi ei osod neu ei bennu felly.
- mae “**Rhestr Brisio ar gyfer Ardrethu**” yn golygu rhestr a gynhelir, neu sydd wedi'i chynnal ar ryw adeg, at ddibenion ardrethu, o dan adran 41 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, adran 67 Deddf Ardrethu Cyffredinol 1967 neu unrhyw ddeddfiad arall;
- Mae “**gwasanaeth**” yn cynnwys, ond heb ei gyfyngu i, gyflenwi dŵr;
- Mae “**Cwmnïau Bach**” yn golygu'r cwmnïau canlynol:
 - (a) unrhyw gwmni sydd â phenodiad fel ymgwymerwr perthnasol lle bo amodau'r penodiad hwnnw'n cyfyngu taliadau y gellir eu pennu o dan gynllun taliadau o dan adran 143 Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 drwy gyfeiriad at y taliadau a bennwyd gan un neu fwy o ymgwymerwyr perthnasol; a
 - (b) Cholderton and District Water Company Limited.
- Mae “**Cytundeb Arbennig**” yn golygu cytundeb y mae adran 142(2)(b) Deddf y Diwydiant 1991 yn berthnasol iddo;

- Mae “**Taliadau Cyfanwerthu Heb Fesurydd**” yn golygu tâl a godir am wasanaethau sydd heb ei seilio ar symiau cyfaint a fesurwyd i unrhyw raddau; ac
 - Mae “**Taliadau Cyfanwerthu**” yn golygu'r taliadau y gellir eu gosod gan:
 - (a) ymgwymerwr dŵr o dan gytundeb adran 66D lle mae trwyddedai cyflenwi dŵr gydag awdurdodiad manwerthu neu awdurdodiad manwerthu cyfyngedig yn rhan o'r cytundeb hwnnw; ac
 - (b) ymgwymerwr carthffosiaeth o dan gytundeb adran 117E lle mae trwyddedai carthffosiaeth gydag awdurdodiad manwerthu yn rhan o'r cytundeb hwnnw.
6. Oni bai bod y bwriad i'r gwrthwyneb yn ymddangos, mae gan eiriau ac ymadroddion a ddefnyddir yn y rheolau hyn yr un ystyr ag sydd yn unrhyw ddarpariaeth Deddf y Diwydiant Dŵr 1991.

Cyhoeddi

7. Rhaid i bob ymgwymerwr dŵr gyhoeddi'r Taliadau Cyfanwerthu sy'n daladwy gan drwyddedai cyflenwi dŵr i Eiddo Cymwys sydd wedi'u cysylltu i system gyflenwi'r ymgwymerwr. Mae hyn yn cynnwys yr Eiddo Cymwys y byddai Cytundeb Arbennig fel arall yn berthnasol iddo (er nad oes unrhyw beth yn y rheolau hyn yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyhoeddi enw neu gyfeiriad cwsmer).
8. Rhaid i bob ymgwymerwr carthffosiaeth y mae ei ardal yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr gyhoeddi'r Taliadau Cyfanwerthu sy'n daladwy gan drwyddedai carthffosiaeth parthed darpariaeth gwasanaethau carthffosiaeth i Eiddo Cymwys sydd wedi'u cysylltu i system garthffosiaeth yr ymgwymerwr. Mae hyn yn cynnwys yr Eiddo Cymwys y byddai Cytundeb Arbennig fel arall yn berthnasol iddo (er nad oes unrhyw beth yn y rheolau hyn yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyhoeddi enw neu gyfeiriad cwsmer).
9. Rhaid i bob ymgwymerwr perthnasol hefyd, fel isafswm, gyhoeddi'r Taliadau Cyfanwerthu (neu'r fethodoleg ar gyfer cyfrifo taliadau o'r fath lle na ellir pennu'r taliadau ymlaen llaw) a fyddai, lle bo hynny'n berthnasol, yn daladwy gan y trwyddedai cyflenwi dŵr neu'r trwyddedai carthffosiaeth ar gyfer:
- (a) amnewid pibelli gwasanaeth plwm;
 - (b) darparu a chynnal a chadw hydrantau tân;
 - (c) difrod i gyfarpar;

- (d) cynnal archwiliadau i ganfod a oes unrhyw ddarpariaeth sydd wedi ei chynnwys yn, neu wedi ei gwneud neu'n cael effaith o dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991, parthed unrhyw ffitiadau dŵr neu parthed y gwastraff neu gamddefnydd dŵr yn cael neu wedi cael ei thorri;
 - (e) archwiliadau safle;
 - (f) darpariaeth a defnydd pibelli ddŵr;
 - (g) profi mesuryddion; a
 - (h) datgysylltu pibell wasanaeth (neu fel arall ar gyfer torri cyflenwad dŵr) i unrhyw eiddo ac ailgysylltu eiddo o'r fath i brif bibell ddŵr.
10. Rhaid cyhoeddi Taliadau Cyfanwerthu o leiaf un wythnos ar ddeg cyn dechrau'r cyfnod y gosodir y taliadau ar ei gyfer.
11. Rhaid cyhoeddi Taliadau Cyfanwerthu ar wefan ymgymwrwr perthnasol ac mewn modd arall y mae'r ymgymwrwr yn ei ystyried sy'n briodol er mwyn eu dwyn i sylw personau y disgwylir iddynt gael eu heffeithio ganddynt.
12. Rhaid cyhoeddi Taliadau Cyfanwerthu gyda'r wybodaeth neu'r eglurhad ychwanegol sy'n angenrheidiol i'w gwneud hi'n glir pa wasanaethau sydd wedi'u cwmpasu gan bob taliad.

Egwyddorion codi tâl cyffredinol

13. Rhaid i ymgymwrwyr y mae eu hardal yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr benderfynu pa fath o daliadau y gellir neu na ellir eu gosod a swm unrhyw daliadau y gellir eu gosod yn unol â'r egwyddor y dylai Taliadau Cyfanwerthu adlewyrchu:
- (a) tegwch a fforddiadwyedd;
 - (b) diogelu'r amgylchedd;
 - (c) sefydlogrwydd a rhagweladwyedd; a
 - (d) thryloywder a gwasanaeth wedi'i ganolbwyntio ar y cwsmer.

Egwyddorion ar gyfer penderfynu ar swm taliadau

14. Rhaid defnyddio egwyddorion a dulliau cyson wrth gyfrifo taliadau ar gyfer gwahanol ddsbarthiadau Eiddo Cymwys, waeth pa wasanaethau a ddarperir.
15. Rhaid i strwythurau codi tâl adlewyrchu'r costau cyfartalog tymor hir sy'n gysylltiedig â darparu'r gwasanaeth perthnasol.
16. Rhaid i wahaniaethau rhwng taliadau am wasanaethau a ddarperir i Eiddo Cymwys sy'n ddefnyddwyr mwy o ddŵr a gwasanaethau carthffosiaeth a thaliadau am wasanaethau a ddarperir i Eiddo Cymwys sy'n ddefnyddwyr llai o ddŵr a gwasanaethau carthffosiaeth ddim ond cael eu seilio ar wahaniaethau cost cysylltiedig â defnydd gwahaniaethol asedau rhwydwaith, nodweddion brigo gwahaniaethol, lefelau gwasanaeth gwahanol a/neu wahanol gywirdeb mesuriad gwasanaeth.
17. Lle defnyddir gwahaniaethau cost sy'n gysylltiedig â nodweddion brigo gwahaniaethol fel sail ar gyfer gwahaniaethau rhwng taliadau am wasanaethau a ddarperir i Eiddo Cymwys sy'n ddefnyddwyr mwy o ddŵr a gwasanaethau am wasanaethau a ddarperir i Eiddo Cymwys sy'n ddefnyddwyr llai o ddŵr, rhaid i'r taliadau a bennir ar y sail honno fod wedi eu strwythuro ar sail galw brig priodol.
18. Rhaid i daliadau ar gyfer gwasanaethau carthffosiaeth roi ystyriaeth i'r gwahanol lwyth llygryddion sy'n gysylltiedig â dŵr budr, elifiant masnachol, draenio dŵr wyneb o Eiddo Cymwys a draenio dŵr wyneb o briffyrdd.

Taliadau heb fesurydd

19. Ni ellir gosod Taliadau Cyfanwerthu Heb Fesurydd oni bai bod y sail ar gyfer gosod neu bennu'r taliadau hynny yn glir ac, mewn achos Taliadau Gwerth Ardrethol, ei bod hi'n glir:
 - (a) pa daliadau Rhestr Brisio ar gyfer Ardrethu a osodir neu a bennir drwy gyfeirio ato; ac
 - (b) os yw'r ymgwymerwr yn defnyddio gwahanol werth neu swm arall i'r hyn a nodir mewn rhestr o'r fath, y fethodoleg neu sail arall a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r gwerth gwahanol neu'r swm arall.

Taliadau dŵr gwastraff

20. Rhaid i ymgymerywyr carthffosiaeth y mae eu hardal yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr, mewn perthynas â phob cyfnod sy'n dechrau ar neu wedi 1 Ebrill 2020, wahanu Taliadau Cyfanwerthu ar gyfer gwasanaethau carthffosiaeth a ddarperir i Eiddo Cymwys yn daliadau ar wahân ar gyfer derbyn, trin a gwaredu:
- (a) dŵr budr;
 - (b) elifiant masnachol;
 - (c) draenio dŵr wyneb o Eiddo Cymwys; a
 - (d) draenio dŵr wyneb o briffyrdd.
21. Rhaid i ymgymerywyr carthffosiaeth ddarparu ar gyfer lleihad priodol yn y Taliadau Cyfanwerthu sy'n daladwy am ddarparu gwasanaethau carthffosiaeth i unrhyw Eiddo Cymwys lle bo'r ymgymerwr carthffosiaeth yn gwybod, neu y dylai'n rhesymol fod wedi gwybod, nad yw dŵr wyneb yn draenio i garthffos gyhoeddus o'r eiddo hwnnw.

Elifiant masnachol

22. Rhaid i daliadau sydd i'w talu mewn cysylltiad â chynnal swyddogaethau elifiant masnachol ymgymerwr carthffosiaeth fod wedi'u seilio ar Fformiwla Mogden, amrywiad rhesymol o Fformiwla Mogden neu ar sail fwy cost-adlewyrchol amlwg.

Taliadau draenio consesiynol

23. Rhaid i'r Taliadau Cyfanwerthu a gyhoeddir gan bob ymgymerwr carthffosiaeth nodi:
- (a) y dosbarthiadau grŵp cymunedol (os o gwbl) y mae'r ymgymerwr yn caniatáu iddynt ostyngiadau yn y Taliadau Cyfanwerthu sy'n daladwy gan drwyddedai carthffosiaeth parthed draenio dŵr wyneb o Eiddo Cymwys; a'r
 - (b) y gostyngiadau a ganiateir.

24. Pan fo cynllun taliadau ymgwymerwr carthffosiaeth o dan adran 143 Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 yn cynnwys darpariaeth sydd wedi'i fwriadu i leihau taliadau i grwpiau cymunedol parthed draenio dŵr wyneb o'u Heiddo Cymwys, rhaid i swm y Taliadau Cyfanwerthu sy'n daladwy gan drwyddedai carthffosiaeth parthed darpariaeth gwasanaethau carthffosiaeth i Eiddo Cymwys a feddiannir gan grwpiau cymunedol gael eu pennu yn unol â'r egwyddorion canlynol:
- (a) rhaid i Daliadau Cyfanwerthu gael ei lleihau mewn perthynas â'r un dosbarthiadau o grŵp cymunedol; a
 - (b) rhaid i'r gostyngiadau mewn Taliadau Cyfanwerthu fod yr un fath a bod yn gymwys ar gyfer yr un cyfnod.

Cytundebau arbennig

25. Lle byddai Cytundeb Arbennig yn gymwys ar gyfer darpariaeth gwasanaethau i Eiddo Cymwys pe bai'r ymgwymerwr yn parhau i ddarparu gwasanaethau, rhaid i ymgwymerwr perthnasol osod ar drwyddedai cyflenwi dŵr neu, fel y bo'r achos, trwyddedai carthffosiaeth dim ond y cyfryw daliadau a fyddai'n galluogi'r trwyddedai i godi tâl am y gwasanaethau hynny ar yr un gyfradd neu gyfraddau ac a fyddai wedi bod yn gymwys pe bai'r Cytundeb Arbennig wedi bod yn gymwys.

Cwmnïau bach

26. Nid yw paragraff 10 y rheolau hyn yn gymwys i Gwmnïau Bach. Yn hytrach, rhaid i gwmnïau bach gyhoeddi eu Taliadau Cyfanwerthu (neu'r fethodoleg ar gyfer cyfrifo taliadau o'r fath) o leiaf naw wythnos cyn dechrau'r cyfnod y bydd y taliadau'n cael eu gosod ar ei gyfer.

Atodiad: Gofynion o ran gwybodaeth

Datganiadau sicrwydd

- A1 Dylai pob ymgwymerwr roi datganiad sicrwydd gan ei Fwrdd Cyfarwyddwyr i'r Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr a chyhoeddi ei ddatganiad dim hwyrach nac amser cyhoeddi ei Daliadau Cyfanwerthu terfynol yn cadarnhau:
- (a) bod y cwmni'n cydymffurfio â'i rwymedigaethau cyfreithiol sy'n ymwneud â'r Taliadau Cyfanwerthu y mae wedi eu cyhoeddi;
 - (b) bod y Bwrdd wedi asesu effeithiau'r taliadau newydd ar drwyddedeion cyflenwi dŵr a thrwyddedeion carthffosiaeth (yn gyfan neu mewn grwpiau) sy'n manwerthu gwasanaethau cyfanwerthu ac ar gwsmeriaid sy'n meddiannu Eiddo Cymwys (yn gyfan neu mewn grwpiau) a'i fod yn cymeradwyo'r asesiadau effaith a strategaethau trin a ddatblygwyd mewn sefyllfaoedd lle bo cynnydd bil ar gyfer trwyddedeion (yn gyfan neu mewn grwpiau) sy'n manwerthu gwasanaethau cyfanwerthu ac ar gwsmeriaid sy'n meddiannu Eiddo Cymwys (yn gyfan neu mewn grwpiau) yn uwch na 5%.
 - (c) mae gan y cwmni systemau a phrosesau cynnwys ar waith (yn cynnwys modelau a data wedi'u diweddarau) er mwyn gwneud yn siŵr bod y wybodaeth a gyhoeddir am ei Daliadau Cyfanwerthu yn gywir;
 - (d) mae'r cwmni wedi ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol mewn modd amserol ac effeithiol ar ei Daliadau Cyfanwerthu; a
 - (e) lle bod Taliadau Cyfanwerthu yn sylweddol wahanol i'r Taliadau Cyfanwerthu dangosol a gyhoeddwyd ar gyfer yr un cyfnod, mae'r Bwrdd wedi ystyried y rhesymau pam fod y newidiadau hynny wedi digwydd ac wedi cyhoeddi datganiad yn egluro pam na ragwelwyd a/neu na liniarwyd y newidiadau hynny. At y dibenion hyn, mae "Taliadau Cyfanwerthu dangosol" yn golygu'r wybodaeth y cyfeirir ati yn A3 isod ac mae taliadau'n "sylweddol wahanol" pe byddai person rhesymol yn ystyried y newidiadau i fod yn arwyddocaol.

Gwybodaeth codi tâl dangosol

- A2 Dim hwyrach na chwe mis cyn cyhoeddi ei Daliadau Cyfanwerthu terfynol, dylai pob ymgwymerwr (ac eithrio cwmni bach), os yw'n ystyried gwneud unrhyw newidiadau sylweddol i'r Daliadau Cyfanwerthu sylfaenol, gyhoeddi gwybodaeth sydd, fel isafswm, yn hysbysu rhanddeiliaid o gwmpas ei newidiadau arfaethedig. At y

dibenion hyn, bydd newidiadau'n "sylweddol" os byddai person rhesymol yn eu hystyried yn arwyddocaol. Nid oes angen i'r wybodaeth a ddarperir fod mor fanwl â honno y cyfeirir ati yn A3 ac A4 isod.

- A3 Dim hwyrach na thri mis cyn cyhoeddi ei Daliadau Cyfanwerthu terfynol, dylai pob ymgwymerwr (ac eithrio cwmni bach) ddarparu i'r Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr a chyhoeddi Taliadau Cyfanwerthu dangosol. At y dibenion hyn, "Taliadau Cyfanwerthu dangosol" yw'r Taliadau Cyfanwerthu sylfaenol y mae'r ymgwymerwr yn rhesymol ddisgwyl i'w gosod ar gyfer y cyfnod dilynol (yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael iddo ar yr adeg honno).
- A4 Dim hwyrach na thri mis cyn cyhoeddi ei Daliadau Cyfanwerthu terfynol, dylai pob ymgwymerwr (ac eithrio cwmni bach), os yw'n bwriadu gwneud unrhyw newidiadau sylweddol i'w Daliadau Cyfanwerthu sylfaenol, ddarparu i'r Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr a chyhoeddi datganiad o newidiadau sylweddol. At y dibenion hyn:
- (a) bydd newidiadau i lefel y Taliadau Cyfanwerthu sylfaenol, neu'r fethodoleg ar gyfer eu cyfrifo, yn sylweddol os byddai person rhesymol yn eu hystyried yn bwysig; a
 - (b) dylai datganiad o newidiadau sylweddol gynnwys:
 - (i) pa newidiadau sy'n ddisgwyliedig;
 - (ii) sut mae trwyddedeion cyflenwi dŵr a thrwyddedeion carthffosiaeth (yn gyfan neu mewn grwpiau) a chwsmeriaid sy'n meddiannu Eiddo Cymwys (yn gyfan neu mewn grwpiau) yn debygol o gael eu heffeithio arnynt; a'r
 - (iii) strategaethau trin y gellid eu defnyddio gan yr ymgwymerwr neu pam fod yr ymgwymerwr o'r farn nad oes angen unrhyw strategaethau trin.
- A5 Dylai pob ymgwymerwr (ac eithrio cwmni bach) roi datganiad sicrwydd gan ei Fwrdd Cyfarwyddwr i'r Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr a chyhoeddi ei ddatganiad ddim hwyrach nac amser cyhoeddi ei Daliadau Cyfanwerthu dangosol yn cadarnhau, gan ddenfyddio'r wybodaeth orau sydd ar gael ar y pryd:
- (a) bod y cwmni'n cydymffurfio â'i rwymedigaethau cyfreithiol sy'n ymwneud â'r Taliadau Cyfanwerthu dangosol y mae wedi eu cyhoeddi;
 - (b) bod y Bwrdd wedi asesu effeithiau'r taliadau newydd ar drwyddedeion cyflenwi dŵr a thrwyddedion carthffosiaeth (yn gyfan neu mewn grwpiau) sy'n manwerthu gwasanaethau cyfanwerthu ac ar gwsmeriaid sy'n meddiannu Eiddo Cymwys (yn

gyfan neu mewn grwpiau) a'i fod yn cymeradwyo'r asesiadau effaith a strategaethau trin a ddatblygwyd mewn sefyllfaoedd lle bo cynnydd bil ar gyfer trwyddedeion (yn gyfan neu mewn grwpiau) sy'n manwerthu gwasanaethau cyfanwerthu i gwsmeriaid cymwys ac ar gwsmeriaid sy'n meddiannu Eiddo Cymwys (yn gyfan neu mewn grwpiau) yn uwch na 5%;

- (c) bod gan y cwmni systemau a phrosesau priodol ar waith (yn cynnwys modelau a data wedi'u diweddarau) er mwyn gwneud yn siŵr bod y wybodaeth a gyhoeddir am ei Daliadau Cyfanwerthu dangosol yn gywir; a
- (d) bod y cwmni wedi ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol mewn modd amserol ac effeithiol ar ei Daliadau Cyfanwerthu dangosol.